



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu safonau'r Gymraeg

Gosod cyfeiriad pendant i sicrhau bod y sefydliad yn datblygu ei wasanaethau Cymraeg

Dyddiad: Hydref 2018

Er mwyn paratoi at weithredu safonau'r Gymraeg, creodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynllun strategol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth strategol, newid ymddygiad, a pherfformiad a llywodraethu.

CEFNDIR

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg ers rhai blynyddoedd. Yn 2019, bydd yn dod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

Roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn bod dyfodiad safonau'r Gymraeg yn gofyn am dull gwahanol o weithredu. Roedd o'r farn bod angen iddo osod gweledigaeth hir-dymor i sicrhau bod ei wasanaethau Cymraeg yn esblygu i ymateb i'r galw cynyddol amdanynt.

CYNLLUN STRATEGOL

Penderfynodd y Bwrdd Iechyd lunio cynllun strategol oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg. Mae'n amlinellu cyfeiriad ac ymagwedd y sefydliad ar gyfer y tair blynedd nesaf (2018-21) ac yn gosod fframwaith cadarn sy'n sicrhau bod staff ar draws y sefydliad cyfan yn ymwybodol ohono ac yn ei berchnogi.

Gosodwyd **tri dimensiwn clir** yn y cynllun er mwyn cael sylfaen i adeiladu arni:

Ymyrraeth Strategol

Mae'r dimensiwn hwn yn gosod gweledigaeth i'r Bwrdd Iechyd o ran y Gymraeg. Mae'n cyflwyno eglurder o ran yr ymrwymiad sydd ei angen ar lefel arwain uwch gan wreiddio'r Gymraeg mewn cynllunio gweithredol.

Newid Ymddygiad

Mae'r dimensiwn hwn yn creu cyd-destun sy'n annog staff i ddefnyddio eu sgiliau iaith. Mae'n hanfodol ennyn newid diwylliannol ar bob lefel i greu amgylchedd lle mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o'r pwys mwyaf.

Perfformiad a Llywodraethu

Mae'r dimensiwn hwn yn sicrhau bod y cynllun strategol yn parhau i fod yn ddarn gweithredol o waith. Drwy osod camau gweithredu a'u monitro, mae'n ein galluogi ni i ganiatáu adrodd clir a thystiolaeth o gydymffurfiaeth.

FFRYDIAU GWAITH

Er mwyn sicrhau bod modd mesur perfformiad, pennwyd ffrydiau gwaith ar gyfer pob un o'r tri dimensiwn yn y Cynllun Strategol sy'n ymateb i ofynion safonau'r Gymraeg ac amcanion 'Mwy na Geiriau', sef fframwaith strategol y Llywodraeth ym maes iechyd.

Ymyrraeth Strategol

- 1 Cynllunio'r Gweithlu:** Mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn canolbwyntio ar gynllunio gweithlu dwyieithog ac yn cynnwys camau i adnabod a chofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol; i asesu anghenion gwasanaethau Cymraeg; i ganfod bylchau sgiliau mewn gwasanaethau a thimau; ac yn benodol, i recriwtio ar sail penderfyniadau strategol. Mae pob swydd rheng flaen yn awr yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol yn ddi-os. Mae'r swyddi hyn yn cynnwys staff derbynfeydd, switsfyrddau, canolfannau galwadau a chlercod ar y wardiau. Mae hyn yn gam cadarnhaol i gynyddu'r capasiti i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg.
- 2 Cynllunio Gwasanaethau:** Er mwyn cynllunio gwasanaethau, mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei brifffrydio i holl bolisiâu'r sefydliad drwy asesiad effaith ieithyddol. Hefyd, ar ôl cydweithio agos rhwng Tîm y Gymraeg a'r adran contractau, mae'r holl gytundebau, yn cynnwys cartrefi gofal a chartrefi nyrsio, yn cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg.
- 3 Systemau TGCh:** Mae Technoleg Gwybodaeth yn hanfodol i sicrhau bod prosesau yn eu lle i nodi dewis iaith cleifion a bod y systemau hyn yn cael eu defnyddio'n rhagweithiol i drefnu gwasanaethau Cymraeg. Yn adran Awdioleg y Bwrdd Iechyd mae system sy'n nodi dewis iaith cleifion ac mae'r wybodaeth hon yn dod i fyny ar y sgrin bob tro fydd y claf yn mynychu'r clinig, neu pan fydd angen anfon gohebiaeth bersonol atynt. Mae hyn yn golygu bod yr adran Awdioleg yn gallu trefnu bod gweithiwr proffesiynol Cymraeg yn cael ei neilltuo ar gyfer y claf.

Newid Ymddygiad

- 4 **Hyfforddiant:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Tiwtor y Gymraeg i roi'r cyfle i staff ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae hyfforddiant Gymraeg wedi ei gynnwys fel un o elfennau'r Polisi Absenoldeb Astudio, ac yn cael ei gynnwys fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Staff.
- 5 **Hunaniaeth Gorfforaethol:** Mae'n hanfodol creu amgylchedd sydd yn croesawu ac yn annog unigolion i wneud defnydd o wasanaethau Cymraeg, trwy osod posteri 'Cymraeg' ar draws ysbytai a chlinigau'r Bwrdd Iechyd, a chreu placiau 'Siaradwch Gymraeg yma' i'w gosod ar dderbynfeydd.
- 6 **Cyfathrebu:** Lluniwyd Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer y Gymraeg. Mae'n gosod y camau y mae Tîm y Gymraeg yn eu cymryd i annog staff i dderbyn perchnogaeth o'r Gymraeg ar lefel unigolyn ac ar lefel gwasanaeth.

Perfformiad a Llywodraethu

- 7 **Gwasanaethau rheng-flaen:** Mae gwasanaethau rheng flaen yn cyplysu sawl ffrwd gwaith o ran cynllunio'r gweithlu ac mae'r ffrwd hwn yn sail i fesur llwyddiant darpariaeth Gymraeg.
- 8 **Prosesau llywodraethu:** Mae prosesau cadarn yn cynorthwyo o ran dysgu gwersi, adnabod pryderon cyffredinol a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu monitro ar gyfer sicrwydd ac ansawdd.
- 9 **Arferion da:** Mae'n bwysig peidio ag anghofio dathlu'r gwaith da sy'n digwydd drwy rannu a thynnu sylw at arferion da.

GWIREDDU AR LAWYR GWLAD

Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd sy'n arwain y gwaith o ddydd i ddydd ac mae'n digwydd o fewn cylch gwaith Fforwm Strategol y Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod yr arweiniad strategol yn cael ei wireddu ar lawr gwlad sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect yn benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg ac mae arweinwyr lefel uchel o fewn y sefydliad yn aelodau ohono.

Mae'r Grŵp yn rhoi ffocws i'r gwaith ac yn fodd o sicrhau cydymffurfiaeth gan fod pob gwasanaeth yn destun i fatrics a system sgorio. Mae pob ffrwd gwaith yn cael ei fonitro a rhoddir pwysigrwydd ar werthuso a mesur traweffaith unrhyw waith boed hynny yn fewnol ar staff y Bwrdd Iechyd neu ar brofiadau'r cyhoedd.

Atodir enghreifftiau o bum ffrwd gwaith a chanfyddiadau'r gwerthusiad cychwynnol ohonynt i'r ddogfen hon.

YR YMATEB I'R CYNLLUN

Ymateb y Bwrdd Iechyd	mae'n gosod gweledigaeth hirdymor
Ymateb staff	mae'n cynyddu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol
Ymateb y cyhoedd	cynhaliwyd arolwg yn yr Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty Gwynedd gan ofyn sawl cwestiwn am amgylchedd ddwyieithog, gwasanaethau wyneb yn wyneb ac ystyriaeth oedd yn cael ei roi i anghenion ieithyddol:

Cwestiwn	✓	X
Ydych chi'n teimlo bod awyrgylch Gymreig yn yr ysbyty? <i>(roedd hyn yn cyfeirio at bosteri, arwyddion ac a oedd modd clywed y Gymraeg yn yr adran)</i>	100%	0%
A gawsoch eich cyfarch yn ddwyieithog yn y dderbynfa?	92%	8%
A oedd yr ohebiaeth a anfonwyd atoch yn ddwyieithog?	100%	0%
Ydych chi'n teimlo bod staff y Bwrdd Iechyd yn ystyried eich anghenion ieithyddol o ran y Gymraeg?	95%	5%
Ydy derbyn (neu beidio derbyn) gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn gwneud gwahaniaeth i'ch profiad pan fyddwch yn yr ysbyty?	84%	16%
A gawsoch eich ymgynghoriad (neu ran ohono) drwy gyfrwng y Gymraeg?	40%	60%

Gwnaed sylwadau pellach am:

- bwysigrwydd darparu gwasanaeth dwyieithog fel rhan o'r pecyn gofal
- nodi staff sy'n siarad Cymraeg o fewn adrannau drwy ddefnyddio bathodynau 'laith Gwaith' ar eu dillad gwaith neu drwy wisgo cortynnau
- gwella sgiliau'r gweithlu presennol fel eu bod yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg

Mae'r arolwg wedi ei ymestyn ac yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn yr Adran Cleifion Allanol Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Bydd y canfyddiadau yn galluogi'r sefydliad i amlygu arferion da yn ogystal â nodi bylchau yn y gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi targedu'r gefnogaeth lle mae mwyaf ei angen wrth symud ymlaen i gryfhau ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ymhellach.

SUT GALL HYN WEITHIO I SEFYDLIADAU ERAILL?

Mae modd trosglwyddo sawl agwedd o'r arfer da hwn i sefydliadau eraill:

- cynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu safonau'r Gymraeg;
- arweinwyr yn cymryd perchnogaeth ac yn gosod cyfeiriad pendant ar gyfer y sefydliad ac annog perchnogaeth gweddill y gweithlu;
- gosod ffrydiau gwaith penodol i wireddu'r strategaeth yn ymarferol;
- gweithdrefn gadarn i werthuso a monitro effaith.

Manylion cyswllt

Enw: Eleri Hughes-Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg

Sefydliad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

E-bost: Eleri.Hughes-Jones@wales.nhs.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Yn fy adroddiad sicrwydd ar gyfer 2017-18, 'Mesur o Lwyddiant', adroddais fod safonau'r Gymraeg wedi arwain at newid pendant yn y modd yr oedd sefydliadau'n gweithredu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos pwysigrwydd bod sefydliadau'n gweithredu'n rhagweithiol i ysgogi'r newid hwnnw.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud mwy na datgan ei weledigaeth a gosod cyfeiriad strategol ar lefel uchel i annog a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg: mae hefyd wedi dangos hynny drwy weithredu. Drwy brosiectau ac ymgyrchoedd ar lawr gwlad mae'n ennill ymroddiad ei weithlu i ddatblygu'r cynnig o wasanaethau Cymraeg.

Mae'r sefydliad wedi rhoi ystyriaeth fanwl a strategol i'r angen i gynyddu cyfleoedd i gleifion ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae'n allweddol ei fod yn cynllunio i fod yn rhagweithiol wrth godi ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaethau hynny. Ochr yn ochr â'i ddarpariaeth i gleifion, mae hefyd yn gweithio i godi hyder ei weithlu ac annog defnydd mewnol o iaith ymysg ei staff.

Croesawaf y ffaith fod y sefydliad yn mynd ati i wella ei ddealltwriaeth o brofiadau go iawn defnyddwyr a monitro a mesur traweffaith yr holl brosiectau er mwyn mesur eu heffaith.

Atodiad: enghreifftiau o ffrydiau gwaith cynllun strategol y Gymraeg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg


Mae'r sefydliad angen adeiladu capasiti digonol o staff i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Felly, gosodwyd darparu hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg staff fel blaenoriaeth allweddol.

Cyflogwyd tiwtor Cymraeg mewnol ac mae'r gwaith wnaed ganddo wedi bod yn eithriadol o ran cynnwys y cyrsiau ddarparwyd, nifer y mynychwyr a'r traweffaith mae hynny wedi ei gael ar allu staff i ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg.

Mae gwaith arloesol wedi ei wneud i deilwra cyrsiau ar gyfer staff mewn adrannau gwahanol, o ran lefel ieithyddol a'r math o waith sy'n cael ei wneud ganddynt yn ddyddiol. Eisoes mae cyrsiau wedi'u cynnal a'u teilwra ar gyfer grwpiau staff:

- Iechyd Meddwl Oedolion
- Fferyllfa
- Israddedigion Meddygol/Myfyrwyr Ôl-radd
- Cyrsiau Carlam i Dderbynwyr
- Gofal Cychwynnol a Chartrefi Gofal
- Awdioleg
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Gwasanaethau Fferyllfa a Chamddefnyddio Sylweddau CEM Berwyn
- Gweithwyr Gofal Dementia a Nyrsys Dementia Arbenigol

Er mwyn gwerthuso'r rhaglen mae'r Tiwtor yn casglu adborth gan staff yn rheolaidd i sicrhau bod y cyrsiau yn ateb eu gofynion ac i archwilio a oes angen unrhyw ddiwygiadau i adlewyrchu anghenion y gwasanaeth. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol o ran agosatrydd y Tiwtor a gwerth y cyrsiau.



Cynllun Dewis Iaith

Ar Ward Glaslyn yn Ysbyty Gwynedd y cafodd y Cynllun Dewis Iaith ei weithredu gyntaf ond erbyn hyn mae wedi cael ei gyflwyno ar bob ward yn Ysbyty Gwynedd ac ysbytai cymuned ar draws gogledd Cymru. Croesawyd y cynllun gan staff a chleifion fel ei gilydd oherwydd ei fod yn galluogi wardiau i gynllunio'u gweithlu a bod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaethau yn newis iaith cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Un ysbyty cymuned sydd wedi profi effaith gadarnhaol yw Ysbyty Alltwen, Porthmadog sydd wedi bod yn gweithredu'r cynllun ers blwyddyn a mwy. Yn ystod y cyfnod mae 100% o'r cleifion sy'n siarad Cymraeg wedi derbyn cynnig dewis iaith.

Gofynnwyd i'r cleifion a staff yr ysbyty oedd yn gweithredu'r cynllun am eu barn er mwyn monitro'r cynllun a'i effaith ar y gweithlu ehangach. Cofnodwyd y newidiadau cadarnhaol canlynol:

- hwyluso amserlennu a gwella gallu i ddyrannu staff
- gallu paru staff Cymraeg eu hiaith â chleifion sy'n siarad Cymraeg
- galluogi staff i fod yn ymwybodol ar unwaith o ddewis iaith y claf
- osgoi gorfod ail-ofyn i'r claf a yw eisiau gwasanaeth Cymraeg.
- yr holl dîm amlddisgyblaethol yn ymwybodol o ddewis iaith y claf
- gwell perthynas rhwng y staff gofal iechyd proffesiynol a'r claf

Un thema amlwg a nodwyd yw bod cleifion yn sgil y cynllun yn gallu esbonio a thrafod eu symptomau a'u meddyliau'n rhwyddach yn eu mamiaith. Thema arall a amlygwyd gan y staff oedd eu bod yn fwy ymwybodol o ddewis iaith y claf a phwysigrwydd gweithredu ar yr wybodaeth hon hyd eithaf eu gallu.

Meddai claf sydd wedi elwa o'r cynllun:

'Yn ystod fy arhosiad yn Ysbyty Alltwen, mi wnes i ddewis bod yn rhan o'r cynllun iaith, a gosododd y staff y magnet 'Cymraeg' uwch fy mhen fel eu bod yn gwybod ei bod hi'n well gennyf siarad Cymraeg. Mae'n syniad gwych, ac mae'n galluogi'r staff i gyfathrebu'n well gyda'r cleifion y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg, sy'n helpu i ddarparu hyd yn oed gwell gofal.'

Ymgyrch *Defnyddiwch eich Cymraeg*

Mae ymgyrch arloesol *Defnyddiwch eich Cymraeg / Use Your Welsh* yn ymgyrch barhaus newydd gaiff ei harwain gan Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd.

Mae staff y sefydliad yn dweud yn aml nad ydynt yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg un y gweithle, neu nad yw eu Cymraeg yn ddigon da. Felly pwrpas yr ymgyrch yw i annog staff i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt yn y gweithle, ym mhob agwedd o ddarparu gofal i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Mae'r ymgyrch hefyd yn anelu i annog staff i ddefnyddio Cymraeg gyda'u cydweithwyr ac i ymarfer y Gymraeg gyda dysgwyr o fewn eu timau. Mae'n targedu siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr ac unigolion sydd yn gallu cyfarch yn syml yn unig, oherwydd mae adborth gan gleifion yn pwysleisio eu bod yn gwerthfawrogi unrhyw ymdrech a wneir i geisio siarad â nhw yn Gymraeg.

Drwy gyflwyno'r ymgyrch hon ar draws y tri phrif ysbty, codwyd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fewnol ymysg staff a'i bwysigrwydd o fewn y sector iechyd. Y nod yw creu newid mewn ymddygiad, lle bydd staff yn teimlo'n fwy abl i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt yn y gweithle, ond hefyd cynyddu'r cyfleoedd i gleifion i ddefnyddio'r iaith.

Datblygwyd deunyddiau hyrwyddo er mwyn hysbysebu a hybu'r ymgyrch, yn ogystal â holiaduron i fesur sut mae staff yn defnyddio'r iaith ac i fonitro a yw eu defnydd wedi cynyddu ers lansio'r ymgyrch. Cynhaliwyd stondinau gan Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo'r ymgyrch, yn ogystal ag ymweld â wardiau ac adrannau i gynnwys ac annog staff clinigol.

Rhannwyd adnoddau cefnogi megis cortynnau gwddf a bathodynau 'Siarad Cymraeg', amrywiol gardiau ymadroddion Cymraeg a CD's i staff. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth ynghylch y sesiynau hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael ac i godi ymwybyddiaeth ymhellach am y rhaglen hyfforddiant fewnol.

Croesawyd yr ymgyrch gydag optimistiaeth a brwdfrydedd a chynigiwyd cyfleoedd pellach i ymgysylltu â staff ac i ddylanwadu ar arferion ieithyddol.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at y lansiad, crëwyd cyfres o fideos o staff yn trafod eu profiadau'n dysgu a defnyddio Cymraeg yn y gweithle i rannu gyda'r cyhoedd ar sianeli cyfryngau cyhoeddus y Bwrdd Iechyd. Gwelwyd y rhain gan dros 50,000 o ddefnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol. Cyrhaeddodd y postiadau i hyrwyddo'r ymgyrch dros 59,000 unigolyn a derbyniwyd dros 7,000 o ymatebion cadarnhaol i'r postiadau a'r negeseuon trydar.

Annog defnydd mewnol

Mae annog defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn digwydd yn raddol a'r cam naturiol nesaf i'r sefydliad oedd cynhyrchu gweithdrefn ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol fel fydd yn ofynnol gan y safonau gweithredu.

Aeth y sefydliad ati'n rhagweithiol i roi ystyriaeth i sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg i'r graddau mwyaf posibl o fewn trefniadau gweithredol y sefydliad. Roedd llunio gweithdrefn newydd yn darparu cyfle a ffocws i gyflawni'r gwaith.

Mae'r weithdrefn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- cyfathrebu dros y ffôn
- cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a'i bwyllgorau
- cyfathrebu mewnol gan gynnwys negeseuon corfforaethol dwyieithog
- arwyddion
- pecynnau TG
- polisiau
- codi pryderon
- achosion disgyblu/cwynion/urddas yn y gwaith
- hyfforddiant
- sgiliau dwyieithog - recriwtio
- Cofnod Electronig Staff

Mae'r Weithdrefn Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth, a'r camau nesaf yw ei chyhoeddi a'i defnyddio ym mhob cwr o'r sefydliad.

Adnabod ein gilydd fel siaradwyr Cymraeg

Lansiwyd ymgyrch i annog staff i adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg ar System e-bost Outlook er mwyn i gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg fod yn gwybod hynny cyn cychwyn gohebu â hwy. Pwrpas y gwaith oedd annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, drwy e-bost ac ar y ffôn ac mae nifer y gweithlu sydd wedi cwblhau'r wybodaeth hon wedi cynyddu 84.5% mewn cyfnod o flwyddyn.

Erbyn hyn mae 12,831 o ddefnyddwyr e-bost gweithredol wedi diweddarau eu sgiliau ieithyddol, sy'n gyfwerth â 68% o gyfanswm nifer defnyddwyr:

- *Ddim yn siarad Cymraeg* - 7484 o ddefnyddwyr (58%)
- *Siarad rhywfaint o Gymraeg* - 1592 o ddefnyddwyr (12%)
- *Dysgu Cymraeg* - 1115 o ddefnyddwyr (9%)
- *Siarad Cymraeg* - 2640 o ddefnyddwyr (21%)

Y cam nesaf yw i'r Timau Gwybodaeth a Gweithlu sefydlu paralel rhwng Cyfeiriadur Outlook, y Gofrestr Electronig Staff a'r Porth Gwybodeg. Bydd hyn yn galluogi rheoli cyfrifon defnyddwyr yn fwy cywir yn seiliedig ar ddefnyddwyr a gyflogir o fewn y sefydliad a bydd hynny'n arwain at yr holl ddefnyddwyr un ai'n diweddarau neu'n cadarnhau eu manylion.